Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Cylchlythyr | Circular

# Adolygiad CCAUC o gyllid addysgu: Casgliadau

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 27 Ebrill 2023 | |
| **Cyfeirnod:** | W23/10HE | |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru<br>Penaethiaid sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru | |
| **Ymateb erbyn:** | Nid oes angen ymateb. | |
| **Cyswllt:** | Enw: | Nicola Hunt |
| | Ffôn: | 029 2085 9735 |
| | E-bost: | nicola.hunt@hefcw.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu casgliadau ein hadolygiad o gyllid addysgu a chanlyniadau cylchlythyr ymgynghori W22/39HE.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu casgliadau ein hadolygiad o gyllid addysgu a chanlyniadau cylchlythyr ymgynghori W22/39HE.

2. Mae **Atodiad A** yn darparu manylion canlyniadau ymgynghoriad cam tri. Mae **Atodiad B** yn darparu crynodeb o gynigion a ystyriwyd yn ystod pob cam o'r adolygiad o gyllid a'r canlyniad neu benderfyniad a ddeilliodd o hynny.

## Cefndir

3. Roedd cylchlythyr W22/39HE yn darparu ymgynghoriad ynghylch effaith newidiadau arfaethedig i'n methodoleg cyllid addysgu fel cam tri ein hadolygiad o gyllid addysgu. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn yn dilyn rhaglen o ddadansoddi, modelu data ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yng ngham un a cham dau yr adolygiad o gyllid.

4. Yn ystod cam un yr adolygiad, ein nod oedd casglu barn am set o egwyddorion y byddem yn eu defnyddio wrth ddylunio a datblygu ein methodoleg cyllid addysgu, gan gynnwys model cyllido seiliedig-ar-gredydau newydd ar gyfer addysgu. Fe wnaethom ymgynghori ynghylch yr egwyddorion hynny yn ogystal â cheisio barn am flaenoriaethau ar gyfer cyllid addysgu CCAUC yn fwy eang. Fe wnaeth cam dau'r adolygiad ymgynghori ynghylch model seiliedig-ar-gredydau newydd ar gyfer cyllid addysgu, a oedd yn cynnwys set o grwpiau cost a oedd wedi'u bwriadu i ddisodli'r categorïau pynciau academaidd presennol. Fe wnaethom ymgynghori hefyd ynghylch newidiadau i'n premiymau cymhelliant a newidiadau i'r ffordd yr ydym yn defnyddio data yn ein prosesau cyllido. Fe wnaeth canlyniadau cam un a cham dau'r adolygiad o gyllid oleuo cam tri, a oedd yn canolbwyntio ar gymhwyso'r fethodoleg newydd mewn senarios wedi'u modelu yn seiliedig ar ddyraniadau cyllid addysgu 2022/23. Rhannwyd y gwaith modelu hwn gyda sefydliadau ar sail unigol, gan gynnwys dadansoddiad dienw o'r effaith ar y sector yn ei gyfanrwydd.

5. Ein bwriad oedd y dylai sefydliadau gael y cyfle i ystyried a rhoi adborth ar effaith ein cynigion, a oedd wedi cael eu cefnogi'n gyffredinol hyd at y pwynt hwnnw, ac adnabod unrhyw ffyrdd y gellid diwygio'r model. Gallai rhoi'r model seiliedig-ar-gredydau newydd ar waith ei gwneud yn bosibl dyrannu cyllid CCAUC, gan ddefnyddio tystiolaeth fwy cyfoes a grwpiau cost newydd, er mwyn parhau i gefnogi'r sector fel cyfraniad at gostau darpariaeth addysgu. Roedd sefydliadau wedi dynodi hefyd, yn yr ymatebion i ymgynghoriad cam dau, na fyddent yn cefnogi ein cynigion yn llawn heb weld yr effaith ar eu dyraniadau cyllid unigol.

## Canlyniadau ymgynghoriad cam tri

6. Cawsom ddeg ymateb i'r ymgynghoriad, a gaeodd ym mis Rhagfyr 2022. Roedd yr holl ymatebion a gafwyd yn rhai oddi wrth sefydliadau a gyllidir gan CCAUC. Ceir crynodeb o fanylion yr ymatebion a rhestr o'r ymatebwyr yn **Atodiad A**.

7. Roedd nifer o'r ymatebion yn diolch i ni am ein gwaith i ddatblygu'r modelau a oedd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad.

8. Roedd rhai ymatebion yn croesawu'r model newydd neu'n darparu awgrymiadau defnyddiol ar gyfer newidiadau i'r gwahanol amrywiadau ar y model. Fodd bynnag, roedd ymatebion eraill yn erfyn ar CCAUC i arfer pwyll rhag rhoi'r model ar waith o ystyried, pe bai'n cael ei redeg fel a gynigiwyd, heb i gyllid ychwanegol fod ar gael, ei fod yn arwain at newid sylweddol yn y cyllid o ddarpariaeth amser llawn israddedig i ddarpariaeth ran-amser israddedig a fyddai'n cael gwahaniaeth ac effaith sylweddol ar gynaliadwyedd rhai darpariaeth yn y sector.

9. Roedd nifer o ymatebion yn awgrymu y dylai CCAUC oedi cyn rhoi'r cynigion ar waith a'i godi fel mater i gael ei ystyried gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) newydd.

10. Roedd rhai ymatebion hefyd yn awgrymu y dylai CCAUC ystyried rhoi'r grwpiau cost newydd ar waith yn y model cyllido presennol i ddisodli'r categorïau pynciau academaidd presennol, fel ffordd i newid i fodel mwy cyfoes heb amharu ar y system AU gyfan cyn pontio i'r CADY.

## Cwestiynau a chasgliadau ymgynghori

**Cwestiwn 1: Oes gennych chi unrhyw sylwadau am echdynnu data EYM a ddefnyddir yn y modelau, er enghraifft, mewn perthynas â'r dull o amcangyfrif credydau heb eu cwblhau ar gyfer modiwlau lle nad yw'r canlyniad yn hysbys eto?**

Darparodd chwe sefydliad ymatebion i'r cwestiwn yma. O'r chwe ymateb, roedd y mwyafrif (pedwar) o blaid y dull echdynnu data a ddefnyddir yn y modelau. Roedd un ymateb arall yn cefnogi rhesymeg y fethodoleg ond yn nodi rhai heriau o ran data ar gredydau heb eu cwblhau. Nid oedd yr ymateb sy'n weddill yn cefnogi'r cynnig.

**Casgliad:** Byddwn yn penderfynu'n derfynol ar y dull echdynnu data yn y model seiliedig-ar-gredydau fel y amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, fodd bynnag rydym wedi cymryd y penderfyniad i beidio â gweithredu'r model seiliedig-ar-gredydau ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 2: Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y modelau seiliedig-ar-gredydau sy'n cynnwys addasiadau posibl i'r model seiliedig-ar-gredydau a gynigir fel mesur interim, a'r effaith y mae'r rhain yn ei chael ar y dyraniadau?**

Roedd ymatebion i'r cwestiwn yma'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am effaith bosibl y pum model cyllido arfaethedig ar sefydliadau (gan ddefnyddio'r data wedi'i fapio a'r modelau senarios a rannwyd gyda sefydliadau ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori). Er bod rhai ymatebion yn cefnogi'r modelau mewn egwyddor, roedd nifer o ymatebion yn awgrymu y gallai rhoi unrhyw un o'r modelau ar waith arwain at effaith negyddol ar y sector a bod potensial iddynt ddadsefydlogi sefydliadau unigol yn ariannol, ar adeg pan oedd sefydliadau eisoes yn wynebu heriau ariannol digynsail. Roedd un ymateb yn awgrymu nad oedd yr un o'r modelau'n

cynnig cyfaddawd derbyniol ar gyfer mynd i'r afael â'r sefyllfa ganfyddedig lle mae darpariaeth ran-amser wedi bod yn cael ei thangyllido'n hanesyddol ac yn barhaus.

**Casgliad:** A ninnau wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r adborth a gafwyd oddi wrth sefydliadau yn ystod ein digwyddiadau ymgysylltu, rydym wedi penderfynu peidio â rhoi'r model seiliedig-ar-gredydau newydd ar waith ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 3: A oes addasiadau eraill y gellid eu gwneud i'r model seiliedig-ar-gredydau a gynigir y dylem ni eu hystyried yn eich tyb chi wrth wneud ein penderfyniad ynglŷn â rhoi'r model ar waith?**

Roedd ymatebion i'r cwestiwn yma'n darparu awgrymiadau ar gyfer newidiadau i'r model y dylem eu hystyried cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â rhoi'r model ar waith. Rydym wedi ystyried yr awgrymiadau hyn yn fanwl. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw un o'r awgrymiadau hyn yn lliniaru'r heriau a achosir gan y gyllideb sydd ar gael wrth ystyried a ddylid rhoi'r model seiliedig-ar-gredydau newydd ar waith ai peidio. Fe wnaethom ystyried a fyddai'n bosibl cyflwyno grwpiau cost newydd yn ein methodoleg gyllido bresennol; fodd bynnag, nid ydym yn gallu gwneud hyn ar hyn o bryd gan y byddai'n anfforddiadwy ar draws pob dull ac y gallai arwain at anghysonderau a llai o dryloywder yn y dyraniadau cyllido.

**Casgliad:** Byddwn yn darparu'r awgrymiadau hyn ar gyfer y CADY ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad a'r model seiliedig-ar-gredydau.

**Cwestiwn 4: A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o'n cynnig i roi'r model ar waith yn ôl ein hamserlen gyfredol?**

Cawsom saith ymateb manwl i'r cwestiwn yma, gyda rhai cyfeiriadau at faterion a godwyd mewn ymateb i gwestiwn dau a chydag ymatebion yn canolbwyntio i raddau helaeth ar effaith rhoi'r newidiadau ar waith yn hytrach na'r amserlen. Nid oedd y tri ymateb sy'n weddill yn nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio mewn perthynas â'r amserlen. Roedd un ymateb yn awgrymu, o ystyried o pwysau cyfredol o ran costau mewn sefydliadau, y byddai rhoi model a fyddai'n tanseilio sefydlogrwydd darpariaeth yn y sector yn sylweddol ar waith yn achosi pryder. Adleisiwyd hyn gan nifer o ymatebion eraill a oedd yn awgrymu na ddylai CCAUC fwrw ymlaen â'r newidiadau o ystyried yr heriau ariannol presennol a wynebir gan y sector cyn pontio i'r CADY.

**Casgliad**: Ni wnaethom nodi unrhyw faterion arwyddocaol mewn perthynas â'r amserlen; fodd bynnag, rydym wedi penderfynu peidio â rhoi'r model seiliedig-ar-gredydau newydd ar waith ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 5: Sut fydd y model seiliedig-ar-gredydau newydd yn cynorthwyo eich sefydliad i gyfrannu at gyflawni Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru?**

Cawsom naw ymateb manwl i'r cwestiwn yma. Nid oedd yr ymateb sy'n weddill yn dynodi unrhyw effaith. O'r naw ymateb manwl, roedd pump yn awgrymu na fyddai'r gostyngiad disgwyliedig mewn incwm yn dilyn rhoi'r fethodoleg newydd ar

waith yn cynorthwyo sefydliadau i gyfrannu at gyflawni Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru na meysydd polisi eraill Llywodraeth Cymru. Roedd ymatebion yn awgrymu bod effeithiau negyddol posibl mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi, yn ogystal â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd dau ymateb yn awgrymu y gallai'r fethodoleg newydd gael effaith gadarnhaol ar allu sefydliadau i gyfrannu at y Rhaglen Lywodraethu. Roedd y ddau ymateb sy'n weddill yn dynodi y byddai'r effaith yn niwtral gan mwyaf.

**Casgliad:** Byddwn yn darparu'r ymatebion i'r cwestiwn yma fel tystiolaeth i'r CADY ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad a'r model seiliedig-ar-gredydau. Fel uchod, rydym wedi ystyried effaith y modelau ar sefydliadau ac wedi penderfynu peidio â rhoi'r model seiliedig-ar-gredydau newydd ar waith ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau a'u cefnogi yn ystod y broses o bontio i'r CADY, lle bosib, i sicrhau bod gan y sector ddigon o allu i gyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch.

**Cwestiwn 6: A oes materion penodol mewn perthynas â chyllid ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, nad ydych wedi'u codi'n flaenorol, y dylem eu hystyried wrth ystyried canlyniadau'r adolygiad o gostau ychwanegol astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r goblygiadau ar gyfer cyllid?**

Roedd un ymateb yn awgrymu y gallai'r model seiliedig-ar-gredydau arfaethedig gael effaith anffafriol sylweddol o bosibl ar feysydd â darpariaeth cyfrwng Cymraeg weddol ffyniannus ac felly y byddai effaith unrhyw gyllid ychwanegol a fyddai ar gael trwy, er enghraifft, premiwm Cyfrwng Cymraeg, yn debygol o fod yn fach iawn yn y cyd-destun ehangach hwn. Roedd un ymateb yn awgrymu y gall fod risg i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn meysydd a allai ddod yn rhai nas cyllidir yn y dyfodol, pe bai'r fethodoleg newydd yn cael ei rhoi ar waith ar lefelau cyllidebol presennol. Nid oedd gweddill yr ymatebion yn nodi unrhyw faterion pellach mewn perthynas â chyllid ar gyfer darpariaeth Cyfrwng Cymraeg.

**Casgliad**: Rydym wedi nodi'r materion a godwyd mewn perthynas â chyllido darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar hyn. Bydd canlyniadau'r adolygiad o gostau ychwanegol astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yn fuan (gweler para 17 am ragor o wybodaeth).

**Cwestiwn 7: A fydd ein cynigion yn cael unrhyw effaith (boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a/neu o ran peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? Os felly, sut y gellid diwygio'r cynigion er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol (neu fwy o effeithiau cadarnhaol) ar yr agweddau hynny?**

Yn gyffredinol roedd ymatebion yn dynodi effaith niwtral (ddim yn gadarnhaol nac yn niweidiol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a/neu beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd ymatebion hefyd yn dynodi y byddai sefydliadau'n disgwyl am ganlyniadau adolygiad London Economics o gostau ychwanegol astudio trwy gyfrwng y Gymraeg cyn gwneud sylwadau pellach.

**Casgliad**: Ni chynigir unrhyw gamau gweithredu pellach. Rydym yn disgwyl i sefydliadau barhau i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gymraeg.

**Cwestiwn 8: A yw'r cynigion hyn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'n creu canlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r saith nod llesiant, yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)?**

Roedd un ymateb yn awgrymu y byddai methodoleg a allai adael sefydliadau mewn sefyllfa dlotach yn ariannol yn cael effaith negyddol ar eu gallu i fuddsoddi mewn ffyrdd arloesol i ymateb i'r meysydd hyn. Roedd un ymateb yn awgrymu bod AU ran-amser yn alluogwr hollbwysig ar gyfer economi llesiant, sy'n gyson â chenhadaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a fyddai'n galluogi pobl i ymestyn eu hunain a chyrraedd eu potensial. Byddai model cyllido cynaliadwy'n galluogi darparwyr i gynllunio a dylunio darpariaeth mewn ffordd fwy hirdymor, cynaliadwy a chydweithredol. Roedd un ymateb yn awgrymu y byddai rhoi'r cynigion ar waith (gan ystyried y baich ychwanegol y byddai hyn yn ei roi yn ystod y broses bontio, yn enwedig gyda'r graddfeydd amser disgwyliedig yn eu lle) yn anodd ac y gallai ychwanegu at lwythi gwaith a oedd eisoes yn ormodol, a darparu effaith negyddol ar lesiant staff. Nid oedd y saith ymateb sy'n weddill yn nodi unrhyw effeithiau o ganlyniad i'r cynigion, er bod dau o'r ymatebion hyn yn dynodi y byddai angen cynnal asesiad pellach o'r effaith/ymarfer modelu pellach ar lefel sefydliadol unwaith y byddai'r model terfynol wedi cael ei ddewis.

**Casgliad**: Rydym wedi nodi'r materion a godwyd mewn perthynas â chwestiwn 7 a chwestiwn 8 ac wedi diweddaru ein hasesiad o'r effaith. Byddwn yn adolygu ein hasesiad o'r effaith yn gyson i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau a'u cefnogi yn ystod y broses o bontio i'r CADY i sicrhau bod gan y sector ddigon o allu i weithredu'n gadarnhaol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth, a'r saith nod llesiant, yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Rydym wedi ymrwymo'n ddiweddar i 'weithio yn ysbryd' y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a byddwn yn parhau i fyfyrio ar yr ymrwymiad hwn fel y mae'n berthnasol i'n gwaith ar gyllido.

## Casgliadau

11. Roedd y modelau senarios a ddarparwyd ar gyfer sefydliadau fel rhan o ymgynghoriad cam tri, yn seiliedig ar gyfanswm y cyllid addysgu seiliedig-ar-gredydau sydd ar gael yn 2022/23 heb dybio y bydd cyllid ychwanegol yn 2023/24, yn dangos rhai newidiadau arwyddocaol yn y cyllid rhwng darparwyr a rhwng dulliau astudio israddedig, a oedd yn effeithio ar yr holl ddarparwyr. Nododd yr adborth gan sefydliadau yn ystod ein proses ymgynghori na fyddai sefydliadau'n cefnogi newidiadau arwyddocaol yn y cyllid ar draws y sector, er enghraifft o bynciau cost uwch israddedig amser llawn i ddarpariaeth israddedig ran-amser, mewn amgylchedd ariannol sydd eisoes yn heriol. Roedd ffactorau cyfrannol yn cynnwys pwysau costau byw a chynydd mewn chwyddiant a chostau staff. Roedd yr adborth hefyd yn nodi fod rhai sefydliadau heb ystyried fod lefel ffioedd israddedig amser llawn, o £9,000 yn darparu digon o incwm i gefnogi rhai meysydd o ddarpariaeth yng nghyd-destun costau cynyddol felly ystyrir ardaloedd

hyn ei fod yn cael ei danariannu. Rydym yn deall fod trafodaethau ar y materion hyn rhwng y sector a Llywodraeth Cymru yn parhau.

12. Mae ein gwaith modelu a dadansoddi wedi dangos, er mwyn rhoi'r model cyllid seiliedig-ar-gredydau newydd ar waith yn llawn, y byddai angen i ni gael arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, neu y byddai gofyn i ni dderbyn newidiadau arwyddocaol yn y cyllid rhwng darparwyr a rhwng dulliau astudio israddedig gan arwain at ddadsefydlogi rhai darpariaeth o bosibl, a allai fod yn groes i fwriadau polisi eraill megis cefnogi pynciau drud a phynciau cost uwch. Cafodd gwaith cychwynnol i oleuo ein hadolygiad o gyllid addysgu, cyn cam un yr adolygiad o gyllid, ei wneud yng nghyd-destun codiadau disgwyliedig yng nghyllideb CCAUC, yn unol ag argymhellion Adolygiad Diamond. Hefyd, mae CCAUC yn mynd i fod yn cael ei ddisodli gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil erbyn mis Ebrill 2024, ac felly nid oes ond amser cyfyngedig i reoli newid mawr cyn bod corff newydd yn dod yn gyfrifol am gyllido a rheoleiddio darpariaeth ôl-16 yng Nghymru.

13. O ystyried y ffactorau hyn, yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2023, fe benderfynodd Cyngor CCAUC na ddylem roi'r dull cyllid addysgu seiliedig-ar-gredydau newydd ar waith yn 2023/24. Roedd hyn yn seiliedig ar yr effaith negyddol bosibl ar rai rhannau o'r sector mewn amgylchedd parhaus o her a phwysau oherwydd ffactorau allanol, gan gynnwys ymhlith eraill: heriau costau byw, Brexit, materion a etifeddwyd o bandemig Covid-19, heriau trawsffiniol, a thanberfformiad o ran recriwtio myfyrwyr mewn rhai meysydd.

14. Rydym wedi ystyried ffyrdd y gallem roi elfennau o'r fethodoleg cyllid addysgu newydd ar waith o fewn lefelau cyllidebol cyfredol. Caiff y rhain eu nodi yn **Atodiad B** a byddant yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen tybiaethau cyllido a gaiff ei chylchredeg i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC yng ngwanwyn 2023. Fodd bynnag, cyfyngir ar ein gallu i wneud newidiadau, fel a nodir uchod, heb achosi cythrwfl diangen yn y sector neu effeithio ar sefydlogrwydd sefydliadol o bosibl.

15. Fel arall byddwn yn cadw'r holl ffrydiau cyllid addysgu presennol heb unrhyw newidiadau i ddulliau dyrannu ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24. Bydd cadarnhad o ddyraniadau cyllid 2023/24 yn cael ei ddarparu yn haf 2023.

16. Rydym yn croesawu ymgysylltiad parhaus sefydliadau â'n proses adolygu ac rydym yn ddiolchgar am eu hymatebion meddylgar a llawn gwybodaeth i'n hymgyngoriadau.

## Adolygiad o gostau ychwanegol Astudio trwy Gyfrwng y Gymraeg

17. Ym mis Mawrth 2022, fe roddom ni gomisiwn i London Economics (LE Cymru) i gynnal adolygiad newydd o gostau ychwanegol astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnwyd i LE Cymru gynnal ymchwil i gost darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a phenderfynu a oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â rhoi darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg mewn sefydliadau a gyllidir gan CCAUC yng Nghymru (neu lle darperir hyn ar eu rhan) ac, os felly, beth yw'r costau hyn a sut y maent yn wahanol i'r rhai ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg. Gofynnwyd i LE Cymru gymharu'r costau â chanfyddiadau astudiaeth 2005/06, i werthuso unrhyw wahaniaethau yng nghost y

ddarpariaeth ac i fyfyrio ynghylch y rhesymau dros y gwahaniaethau. Gofynnwyd i LE Cymru gyflwyno argymhellion seiliedig-ar-dystiolaeth i CCAUC ar gyfer dulliau posibl o gyllido darpariaeth AU cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol, gan gynnwys nodi, fel y bo'n briodol, swm ymgodiad addas i'w ddefnyddio mewn premiwm cyfrwng Cymraeg.

18. Cyflwynwyd yr adroddiad terfynol i CCAUC ym mis Tachwedd 2022 ac fe'i hystyriwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2023. Fe wnaethom gydweithio'n agos gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gwmpas a manyleb y gwaith, gan gynnwys nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer yr arolwg sefydliadol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â hwy ar ganlyniadau'r adroddiad.

19. Fe ofynnom ni i Gyngor CCAUC yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2023 ystyried argymhellion ar gyfer ffyrdd y gallwn addasu'r dull o ddyrannu'r premiwm cyfrwng Cymraeg ar gyfer 2023/24 i ystyried canlyniadau'r adroddiad. Gweler cylchlythyr W23/08HE am fwy o wybodaeth.

### Y premiwm mynediad a chadw

20. Yn ymgynghoriad cam dau fe geisiom ni farn sefydliadau ynglŷn â newidiadau i'r premiwm mynediad a chadw, yn ychwanegol at y newidiadau a wnaed fel rhan o gam un a roddwyd ar waith ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 (gweler Atodiad B). Roedd y newidiadau yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn ddeublyg: ehangu'r premiwm i gynnwys darpariaeth israddedig amser llawn yn ychwanegol at ddarpariaeth israddedig ran-amser; a chynyddu'r gwahaniaeth perthynol mewn cyfraddau cyllido rhwng y ddau gategori cadw yn y premiwm. Yng nghylchlythyr W22/36HE fe wnaethom gadarnhau y byddem yn gwneud gwaith modelu a dadansoddi pellach cyn dod i gasgliad terfynol ynglŷn â'r cynigion hyn. Rydym wedi cwblhau ein gwaith a gallwn gadarnhau'r penderfyniadau canlynol.

21. Mewn perthynas ag ehangu'r premiwm mynediad a chadw i gynnwys darpariaeth israddedig amser llawn, rydym wedi dod i'r casgliad y byddai'r lefelau cyllidebol presennol yn cyfyngu ar ein gallu i gyllido'r premiwm ar lefel a fyddai'n cael unrhyw effaith mewn sefydliadau. Felly rydym wedi penderfynu cadw'r premiwm mynediad a chadw presennol ar gyfer myfyrwyr israddedig rhan-amser yn unig.

22. Mewn perthynas â'r categorïau cadw a ddefnyddir yn y premiwm, rydym wedi dod i'r casgliad y gallai cynyddu'r gwahaniaethau perthynol rhwng y categorïau hyn gael canlyniadau anfwriadol ar gyfer ein gwaith mewn perthynas ag ehangu mynediad. Felly rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â chynyddu'r gwahaniaeth perthynol rhwng y categorïau a bydd y premiwm yn parhau i weithredu fel a wnaeth yn 2022/23.

23. Fe wnaethom nodi hefyd yn ymgynghoriad cam dau ein bod yn bwriadu diweddaru data'r cyfrifiad a ddefnyddir yn y premiwm o ddata Cyfrifiad 2011 i ddata Cyfrifiad 2021 pan fyddai'r data hwn ar gael. Mae'r data bellach ar gael a gallwn gadarnhau ein dull fel a ganlyn.

24. Byddwn yn defnyddio data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr yng nghyfrifiadau'r premiwm ar gyfer 2024/25. Ni fydd data'r cyfrifiad ar gyfer yr Alban

a Gogledd Iwerddon ar gael mewn pryd i ni ddefnyddio data Cyfrifiad 2021 ar gyfer cyllid 2024/25 ac felly bydd hwnnw'n cael ei ymgorffori'n ddiweddarach.

25. Er nad ydym wedi cadarnhau cyllid y premiwm mynediad a chadw ar gyfer 2023/24 eto, nid ydym yn bwriadu defnyddio data Cyfrifiad 2021 wrth ei gyfrifo. Y rheswm dros hyn yw ein bod wedi gwirio'r data a gaiff ei ddefnyddio wrth gyfrifo premiwm 2023/24 fel rhan o allbynnau'r Gwasanaeth Rhyngwyneb Cofnodi Gwybodaeth (IRIS) 2021/22 a grëwyd o'r cofnodion myfyrwyr a gyflwynwyd gan ddarparwyr i HESA. Cafodd yr allbynnau hynny eu nodi a'u hallbynnu cyn bod data Cyfrifiad 2021 ar gael. Felly, bydd y defnydd cyntaf o ddata Cyfrifiad 2021 fel rhan o allbynnau IRIS cofnod myfyrwyr HESA 2022/23 a fydd yn cynnwys data i'w ddefnyddio yn y premiwm mynediad a chadw yn 2024/25 a fydd yn cael ei gymeradwyo gan ddarparwyr ar ddiwedd 2023.

## Camau nesaf

26. Mae'r adolygiad o gyllid wedi amlygu nifer o faterion mewn perthynas â darparu AU yr ydym yn dymuno'u harchwilio mewn mwy o fanylder, er mwyn i'r canlyniadau allu cael eu defnyddio fel tystiolaeth gan y CADY wrth ddylunio'i brosesau cyllido a rheoleiddio. Rydym yn disgwyl comisiynu adolygiad newydd ar hyn dros y misoedd nesaf, gyda'r canlyniadau ar gael erbyn mis Mawrth 2024. Un agwedd ar y gwaith fydd bwrw golwg ar y ffyrdd y mae addysg uwch yn cael ei darparu a'i chyflwyno ar hyn o bryd er mwyn goleuo ein dealltwriaeth am y gwahaniaethau mewn dulliau darparu (e.e. rhwng amser llawn, rhan-amser, hyblyg a dysgu o bell), y goblygiadau dilynol ar gyfer cyllid yn ogystal ag agweddau ar ddewis myfyrwyr yn y sector AU.

27. Bydd y dull cyllido seiliedig-ar-gredydau arfaethedig terfynol yn cael ei ddarparu ar gyfer y CADY ynghyd â chanlyniadau ein ymgyngoriadau a'n proses adolygu.

## Rhagor o wybodaeth

28. I gael rhagor o wybodaeth am yr adolygiad o gyllid addysgu cysylltwch â Nicola Hunt (029 2085 9735; nicola.hunt@hefcw.ac.uk).

## Asesu effaith ein polisïau

29. Mae Polisi a Gweithdrefnau Asesu Effaith CCAUC yn nodi sut yr ydym yn asesu effaith debygol – boed yn gadarnhaol neu'n negyddol – polisïau ac arferion arfaethedig mewn perthynas â chyflawni ein cyfrifoldeb o dan y canlynol:
    - Deddf Cydraddoldeb 2010
    - Safonau'r Gymraeg 2018
    - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

30. Rydym wedi asesu effaith y newidiadau arfaethedig a oedd wedi'u cynnwys yn ein ymgyngoriadau adolygu cyllid. Yn gyffredinol roedd yr ymatebion ymgynghori'n cefnogi ein cynigion, a'r egwyddorion trosfwaol. Roedd meysydd ar gyfer effeithiau

cadarnhaol posibl yn ymwneud â: mynediad a chadw, ystyried ardaloedd â chyfranogiad isel ac ardaloedd amddifadus, cyllid ar gyfer myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch (gan gynnwys y rhai ag anableddau a'r rhai sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg). Fe wnaeth ymatebion i ymgynghoriad cam un gynghori y dylai darpariaeth Cyfrwng Cymraeg barhau i fod yn faes blaenoriaeth ar gyfer ein cyllid. Ni chodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol newydd ar y Gymraeg mewn ymatebion i ymgynghoriad cam dau. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gysoni ein cyllid i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i fyfyrwyr astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

31. Yn y pen draw, mae effaith negyddol bosibl ein cynigion ar gynaliadwyedd sefydliadol neu gynaliadwyedd o ryw ddarpariaeth wedi bod yn ffactor pwysig yn ein penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r dull cyllido arfaethedig ar hyn o bryd. Bydd yr adolygiad newydd o AU, fe a amlinellir uchod, yn darparu tystiolaeth bellach i'r CADY ei hystyried mewn perthynas â dylunio dull cyllido newydd ar gyfer darpariaeth a addysgir a rhoi'r dull hwnnw ar waith.

32. Byddwn yn parhau i adolygu ein hasesiad o'r effaith i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau o'r effaith.

**Crynodeb o'r ymatebion - Ymgynghoriad cam tri ar gyllid addysgu**

Nifer yr ymatebwyr: 10

Pwyntiau allweddol:

- Cafwyd ymatebion gan ddeg o’r sefydliadau a gyllidir gan CCAUC. Ni chafwyd unrhyw ymatebion eraill.
- Roedd nifer o ymatebion yn diolch i ni am ein gwaith i ddatblygu'r modelau a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad.
- Roedd rhai ymatebion yn croesawu’r model newydd neu’n darparu awgrymiadau defnyddiol ar gyfer newidiadau i wahanol amrywiadau o'r model.
- Roedd yr ymatebion yn erfyn ar CCAUC i bwyllo rhag dewis model a oedd yn cynrychioli newid sylweddol o gyllid o ddarpariaeth amser llawn israddedig i ddarpariaeth ran-amser israddedig.
- Awgrymodd sawl ymateb y dylai CCAUC oedi cyn gweithredu'r cynigion a'i godi fel mater i'w ystyried gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) newydd.
- Awgrymodd o leiaf ddau ymateb y gallai fod yn bosibl gweithredu'r grwpiau cost newydd yn y model cyllido presennol i ddisodli categorïau pynciau academaidd heb darfu ar y system AU gyfan cyn pontio i’r CADY.

**Cwestiwn 1: Oes gennych chi unrhyw sylwadau am echdynnu data EYM a ddefnyddir yn y modelau, er enghraifft, mewn perthynas â’r dull o amcangyfrif credydau heb eu cwblhau ar gyfer modiwlau lle nad yw’r canlyniad yn hysbys eto?**

**Sylwadau:**

- O'r chwe ymateb a ddarparodd sylwadau mewn ymateb i’r cwestiwn hwn, roedd pedwar o blaid y dull o echdynnu data EYM a ddefnyddiwyd yn y modelau, roedd un yn erbyn ac roedd gweddill yr ymatebion yn amwys.
- Roedd y pedwar ymateb o blaid yn nodi bod y dull a ddefnyddiwyd yn rhesymol ac yn cael ei ddeall yn dda. Roedd un ymateb yn cymeradwyo'r dull o ddefnyddio data terfynol yn hytrach na'r dull cyfredol sy'n defnyddio data HESES yn rhannol.
- Awgrymodd ymateb arall mai EYM oedd yr opsiwn lleiaf beichus i ddarparwyr.
- Awgrymodd un ymateb yn erbyn y fethodoleg y byddai defnyddio EYM yn arwain at oedi o ddwy flynedd ar gyfer cyllido twf mewn sefydliadau gyda niferoedd cynyddol o fyfyrwyr rhan-amser, tra gallai oedi o ddwy flynedd cyn cyllido twf gael ei amsugno'n haws yn y sector llawn-amser lle mae niferoedd yn fwy rhagweladwy dan fwy o reolaeth, a lle mae incwm o ffioedd (a dderbynnir yn ystod y flwyddyn) yn cynrychioli cyfran fwy o lawer o gyfanswm incwm.
- Awgrymodd gweddill yr ymatebwyr fod y rhesymeg y tu ôl i'r fethodoleg yn gadarn ond bod heriau yn y fethodoleg mewn perthynas â data ar gredydau heb eu cwblhau.

**Cwestiwn 2: Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y modelau seiliedig-ar-gredydau sy’n cynnwys addasiadau posibl i’r model seiliedig-ar-gredydau a gynigir fel mesur interim, a'r effaith y mae’r rhain yn ei chael ar y dyraniadau?**

**Sylwadau:**

- Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am effaith bosibl y pum model cyllido arfaethedig ar sefydliadau (gan ddefnyddio'r data wedi’i fapio a'r modelau senarios a rannwyd gyda sefydliadau ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori).
- Awgrymodd sawl ymateb fod gan y cynigion y potensial i amharu'n sylweddol ar sefyllfa gyllido sefydliadau ar draws sector Cymru ac y gallent anghytbwyso cynaliadwyedd rhai darparwyr, ar adeg pan oedd sefydliadau eisoes yn wynebu heriau ariannol na digynsail.
- Awgrymodd un ymateb nad oedd yn glir pa fudd fyddai'n deillio o fynd i'r afael â thangyllido mewn un maes trwy gynyddu’r tangyllido mewn meysydd eraill. Hefyd, er bod y cynigion yn ceisio mynd i’r afael â lefelau cyllido yn unol â chanlyniadau TRAC(T), nid oeddent yn ystyried gweithgarwch ôl-radd a addysgir; felly byddai rhoi’r cynnig ar waith yn cyfrannu at ansefydlogrwydd ariannol yn y sector, yn seiliedig ar olwg rannol yn unig o’r gweithgareddau addysgu a ddarperir ar draws y sector.
- Awgrymodd un ymateb y gallai'r cynigion arwain at newidiadau sylweddol ac anfwriadol i gyllido darpariaeth amser llawn a rhan-amser, a oedd yn bwrw amheuaeth ar hyfywedd y modelau dan ystyriaeth. Felly dylid gohirio rhoi'r model newydd seiliedig-ar-gredydau ar waith nes sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a’u hailystyried ar gyfle cynnar wedi hynny.
- Nododd un ymateb ddewis o blaid model D gan yr ystyrid bod Model A yn anfforddiadwy ac nad oedd Model C yn ymateb yn gywir i'r blaenoriaethau a aseinir i'r cyllid.
- Awgrymodd un ymateb nad oedd yr un o'r modelau'n cynnig cyfaddawd derbyniol ar gyfer mynd i'r afael â’r sefyllfa hanesyddol a pharhaus o ran tangyllido darpariaeth ran-amser. Roedd cwestiwn hefyd pa un a yw unrhyw un o'r modelau’n ymlynu wrth yr egwyddorion a amlinellwyd gan CCAUC mewn ymgyngoriadau blaenorol h.y. y dylai'r fethodoleg gyllido gyfrannu at wir gostau cyflawni'r ddarpariaeth yng Nghymru, bod yn glir ac yn hawdd i'w deall a hwyluso dysgu gydol oes ac uwchsgilio, gan gynnwys modelau darpariaeth hyblyg ac wedi’u teilwra.
- Nododd yr un ymateb nad oedd Model B yn briodol gan ei fod wedi'i addasu ar gyfer fforddiadwyedd ac nad oedd yn cyllido pynciau grŵp cost 5. Nid ystyrid bod Model C yn briodol oherwydd ei fod yn mynd yn erbyn egwyddor cyfartalwch rhwng cyllid amser llawn a rhan-amser trwy ddefnyddio gwahanol unedau o adnoddau ar gyfer y ddau grŵp. Nid oedd Model D yn cael ei ystyried yn briodol oherwydd ei fod yn defnyddio uned o adnoddau wedi’i lleihau. Nid ystyriwyd fod Model E yn addas ychwaith am ei fod yn tybio lefel ffioedd uwch ar gyfer astudio'n rhan-amser na'r benthyciad uchaf a ganiateir (£3625 o'i gymharu â £2625), a allai arwain at fwlch mewn incwm i ddarparwyr a bod yn rhwystr rhag dysgu ar gyfer rhai pobl.
- Awgrymodd ymateb arall y byddai newid yn y cyllid o ddarpariaeth amser llawn i ddarpariaeth ran-amser yn cynrychioli gostyngiad sylweddol yn y cyllid ar gyfer

pynciau cost uwch yn y brifysgol honno, a fyddai'n lleihau ei gallu i gyllido a darparu'r pynciau hyn.

- Awgrymodd yr un ymateb fod ail-ddosbarthu cyllid addysgu i ddarpariaeth israddedig ran-amser ar draul darpariaeth amser llawn a phynciau cost uwch yn negyddu'r codiad yn sgîl Adolygiad Diamond a roddwyd i'r sector yn benodol ar gyfer premiymau pynciau cost uwch 2 flynedd yn ôl yn gyfan gwbl, ac y byddai'n cael ei weld fel methiant i gynnal argymhellion Adolygiad Diamond ynghylch cyllid ar gyfer pynciau cost uchel. Tynnodd y sefydliad hwn sylw hefyd at y gwahaniaeth yn y systemau cyllido a'r lefelau cyllido yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr, a allai wneud sefydliadau Cymru'n llai cystadleuol gydag eraill yn y DU.
- Awgrymodd ymateb arall y gallai newid sylweddol yn y cyllid o ddarpariaeth amser llawn i ddarpariaeth ran-amser arwain at fwy o gystadleuaeth o fewn y sector rhan-amser yng Nghymru. Awgrymodd y sefydliad hwn y byddai'n synhwyrol oedi cyn gweithredu'r model newydd; byddai hyn yn caniatáu amser i ddeall effaith pandemig Covid-19 yn llawn.
- Roedd ymateb arall yn cefnogi'r model seiliedig-ar-gredydau newydd mewn egwyddor ond awgrymodd fod angen mwy o amser i ddeall effaith y cynigion ac unrhyw gyllid pontio y byddai ei angen i sicrhau bod cydbwysedd o hyd alluogi sefydliadau i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
- Roedd ymateb arall yn cefnogi’r dull newydd ond yn cynghori y gallai newid y cyllid o ddarpariaeth amser llawn i ddarpariaeth ran-amser wneud y ddarpariaeth amser llawn bresennol yn anghynaliadwy a chyflwyno her i unrhyw dwf posibl mewn niferoedd amser llawn.

**Cwestiwn 3: A oes addasiadau eraill y gellid eu gwneud i’r model seiliedig-ar-gredydau a gynigir y dylem ni eu hystyried yn eich tyb chi wrth wneud ein penderfyniad ynglŷn â rhoi’r model ar waith?**

**Sylwadau:**

- Awgrymodd un sefydliad y dylem ystyried tynnu'r model rhan-amser allan o’r model ehangach ac ymdrin â'r ffrwd gyllido hon ar wahân, er mwyn cynnal yr amlen gyllido amser llawn ar y cyfan. Gallai dod â’r ddwy ffrwd ynghyd achosi anghydbwysedd yn y system ar y cyfan.
- Awgrymodd ymateb arall fod y lefel ffioedd dybiedig a ddefnyddiwyd yn y model ar gyfer darpariaeth ran-amser yn amhriodol gan bod darparwyr yn nodweddiadol yn gosod ffioedd uwch ar gyfer eu cyrsiau rhan-amser a bod risg y byddai mabwysiadu'r modelau arfaethedig yn arwain at fynd yn rhy bell o ran gwneud iawn am dangyllido darpariaeth ran-amser.
- Awgrymodd yr un ymateb, gan y dangoswyd fod pob maes yn cael ei dangyllido ar hyn o bryd, y gellid mynd i'r afael â'r sefyllfa dangyllido dim ond pan fyddai cyllid ychwanegol ar gael gan ddefnyddio dull graddol a oedd yn osgoi ansefydlogi darparwyr unigol i'r graddau y byddai'r modelau'n ei wneud.
- Awgrymodd ymateb arall mai trefniant interim posibl fyddai defnyddio'r grwpiau cost newydd yn y model cyllid addysgu seiliedig-ar-gredydau presennol ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser, er mwyn gallu rhoi'r egwyddorion y cytunwyd arnynt trwy'r broses ymgynghori flaenorol ar waith yn rhannol. Byddai hyn yn rhoi

gwell hyblygrwydd i CCAUC reoli ei gyllideb a chadw cyllid ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn.

- Awgrymodd ymateb arall y gallai Model C, fel opsiwn mwy cymedrol, fod yn sail i set o fodelau wedi'u mireinio a oedd yn archwilio opsiynau pellach. Awgrymodd yr ymateb hefyd y gellid archwilio Model A hefyd gydag unedau cymharol o adnoddau er mwyn cynnal canlyniad cost niwtral ond gyda chyllid yn cael ei ddosbarthu dros yr holl feysydd presennol.
- Awgrymodd un ymateb nad oedd angen unrhyw newidiadau pe bai Model D yn cael ei ddefnyddio yn y dull cyllido terfynol.
- Awgrymodd un ymateb y dylai CCAUC ystyried modelau ychwanegol a oedd yn galluogi dull graddol o gynyddu cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser, neu gynnydd i gyllid y pen ar gyfer darpariaeth ran-amser er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r costau sylfaenol craidd mewn darpariaeth ran-amser.
- Awgrymodd ymateb arall, o ystyried yr effaith bosibl ar nifer o sefydliadau Cymru, y byddai'n well peidio â gweithredu'r fethodoleg ar hyn o bryd, yn sicr nes bod y Comisiwn newydd yn gallu cael sgyrsiau effeithiol gyda sefydliadau a Llywodraeth Cymru am y tangyllido yng Nghymru neu ymchwilio ymhellach i opsiynau eraill. Awgrymodd yr ymateb, lle cyfyngid ar y sector ar hyn o bryd oherwydd ei gyllid addysgu cyfyngedig, nad oedd yn ymddangos ei bod yn briodol symud arian yn sylweddol o un maes blaenoriaeth i'r llall.
- Holodd un ymateb a oedd gwerth o 75% ar gyfer dwyster astudio wrth gyfrifo ffioedd dysgu tybiedig yn briodol ynteu a ddylai'r dwyster fod yn is na 75% i adlewyrchu'r hyn y mae myfyrwyr yn ei astudio mewn gwirionedd yn hytrach na'r dwyster rhan-amser mwyaf.
- Holodd yr un ymateb a ddylai fod cyfraddau gwahanol yn y model i wahaniaethu rhwng darpariaeth i bell/ar-lein ac addysgu wyneb yn wyneb, yn enwedig o ystyried costau ynni cynyddol.

**Cwestiwn 4: A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o'n cynnig i roi'r model ar waith yn ôl ein hamserlen gyfredol?**

**Sylwadau**:

- Roedd un ymateb yn awgrymu, o ystyried y pwysau presennol o ran costau mewn sefydliadau, y byddai gweithredu model a fyddai'n tanseilio sefydlogrwydd ariannol darparwyr yn y sector yn sylweddol yn destun pryder. Mae'r gwaith hyd yma wedi dangos, o dan lefel gyllido bresennol CCAUC, nad oes modd darparu lefelau cyllid cynaliadwy i'r sector, ac y dylid oedi cyn rhoi'r cynigion ar waith, nes bod adolygiad o dan y CADY wedi cael ei gynnal i ganfod sut y gellir mynd i'r afael â'r mater fforddiadwyedd hwn heb ansefydlogi darparwyr ymhellach. Dylai hyn gael ei wneud ochr yn ochr ag adolygiad o lefelau ffioedd rheoleiddiedig a dylai ymgorffori gweithgareddau addysgu ôl-radd a addysgir.
- Dywedodd sefydliad arall na allai gefnogi unrhyw fodel a oedd yn arwain at addasiadau sylweddol i'r cyllid ar draws y sector, ac yn yr amserlen arfaethedig gan y byddai'n peri gormod o ansefydlogrwydd, a'i bod yn anochel y byddai symud cyllid o ddarpariaeth amser llawn i ddarpariaeth ran-amser o fewn cyfanswm sefydlog yn bwrw amheuaeth ar hyfywedd peth darpariaeth.

- Awgrymodd yr un sefydliad, pe bai unrhyw fodelau'n cael eu rhoi ar waith ar eu ffurf bresennol, yna byddai angen cyllid pontio ychwanegol i reoli effaith colli cyllid ar gyfer darpariaeth amser llawn a'i gwneud yn bosibl dirwyn yr addysgu i ben ar gyfer darpariaeth a fyddai'n dod yn anhyfyw o ganlyniad.
- Awgrymodd ymateb arall fod risg y gallai'r dull newydd arfaethedig hybu neu sbarduno ymddygiadau anfwriadol yn y sector, a allai yn ei dro gyflwyno materion o ran hyfywedd darpariaeth a allai berthyn i'r dosbarth darpariaeth nas cyllidir (gan gynnwys pynciau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn y grwpiau cost is). Awgrymodd yr ymateb hefyd mai canlyniadau anfwriadol eraill posibl fyddai ymddygiad sefydliadol mewn perthynas â darpariaeth amser llawn neu ran-amser, adolygiad o ddyraniad cod HECoS ac effeithiau rhanbarthol oherwydd newidiadau i gyllid sefydliadol.
- Roedd un ymateb yn ein hannog i ystyried unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n codi o ganlyniad i'n penderfyniad i ddefnyddio data EYM yn hytrach na data HESES wrth symud ymlaen.
- Roedd yr un ymateb yn awgrymu y dylem ystyried pa newidiadau ellid eu gwneud i'r fethodoleg gyllido cyn sefydlu'r CADY i gefnogi sector Addysg Uwch bywiog a chynaliadwy yng Nghymru yn y ffordd orau.
- Awgrymodd ymateb arall na fyddai gweithredu'r model seiliedig-ar-gredydau newydd yn unol â'n hamserlen ni ond yn cyflwyno heriau ariannol pellach i sefydliadau ac y dylid archwilio opsiynau eraill yn gyntaf gan roi unrhyw gynigion ar waith yn ddiweddarach.
- Roedd ymateb pellach yn cytuno â hyn ac awgrymodd y byddai'n debygol y byddai newidiadau pellach i'r fethodoleg gyllido unwaith y byddai'r CADY wedi'i sefydlu ac y byddai'n well i bob newid gael ei wneud ar unwaith.
- Roedd un ymateb yn cynghori mai canlyniadau anfwriadol posibl fyddai ansefydlogi'r sector AU o bosibl (ar gyfer darpariaeth ran-amser yn enwedig), gan nad yw effaith pandemig Covid-19 ar y galw o blith myfyrwyr am AU wedi cael ei deall yn llawn.

**Cwestiwn 5: Sut fydd y model seiliedig-ar-gredydau newydd yn cynorthwyo eich sefydliad i gyfrannu at gyflawni Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru?**

**Sylwadau:**

- Awgrymodd dau ymateb na fyddai'r gostyngiad yn yr incwm o ganlyniad i'r fethodoleg newydd yn cynorthwyo sefydliadau i gyfrannu at gyflawni Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Byddai angen toriadau sylweddol i wasanaethau er mwyn i rai sefydliadau barhau i fod yn gynaliadwy.
- Awgrymodd un ymateb y byddai'r cynnig presennol ar gyfer gweithredu'n tanseilio cynaliadwyedd ariannol sylfaen ymchwil y sefydliad mewn sawl maes ymchwil allweddol. Gallai hyn effeithio ar allu'r brifysgol i gyfrannu at yr amcanion yn y strategaeth arloesi ar gyfer Cymru. Roedd yr ymateb yn dadlau bod y cynnig presennol yn amlygu nad oedd hi'n bosibl cyllido gweithgarwch presennol yn llawn, heb sôn am ddarparu ar gyfer twf wedi'i gyllido'n briodol ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.

- Fe wnaeth un ymateb awgrymu y gallai fod risg i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dilyniant MALIC mewn meysydd allai ddod yn rhai nas cyllidir yn y dyfodol.
- Nododd yr un ymateb y gallai fod budd posibl i ddarpariaeth ran-amser hefyd.
- Awgrymodd un ymateb y gallai'r dull newydd ganiatáu i ddarparwyr AB barhau i ddatblygu a thyfu eu darpariaeth AU.
- Awgrymodd un ymateb y byddai gwneud cyllid ar gyfer astudiaeth israddedig ran-amser yn fwy teg yn golygu y byddai mwy o bobl ledled Cymru'n parhau i gael y cyfle i gael budd o addysg uwch nag a fyddai wedi gallu cael budd ohoni fel arall. Mae cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru'n mynnu bod gan bobl fynediad at AU ran-amser hyblyg. Byddai buddsoddi yn y math hwn o ddarpariaeth, a gweithredu i gyrraedd cyfartalwch cyllid rhwng darpariaeth ran-amser ac amser llawn, yn galluogi darparwyr i ddarparu cyfleoedd astudio perthnasol, hyblyg o ansawdd da ar gyfer mwy o bobl.
- Awgrymodd ymateb arall y dylai’r gallu i CCAUC ystwytho cyllid i flaenoriaethu meysydd a fyddai'n hybu datblygu economaidd a chynaliadwyedd wella'r cyfraniad i'r Rhaglen Lywodraethu.
- Awgrymodd un ymateb na fyddai'r dull seiliedig-ar-gredydau newydd yn gweithredu fel ysgogiad ar gyfer ymddygiad i gyfrannu at y Rhaglen Lywodraethu; fodd bynnag, byddai'n cynorthwyo sefydliadau i barhau â'u darpariaeth AU.
- Awgrymodd ymateb arall y byddai'r dull seiliedig-ar-gredydau newydd yn galluogi darparwyr i barhau â'u rhaglen i ehangu mynediad at AU. Fodd bynnag, gall llai o gyllid ar gyfer darpariaeth amser llawn gyfyngu ar dwf yn y maes hwn a fyddai yn ei dro’n effeithio ar gynaliadwyedd sefydliadol.
- Nid oedd gweddill yr ymatebion yn dynodi unrhyw effaith.

**Cwestiwn 6: A oes materion penodol mewn perthynas â chyllid ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, nad ydych wedi’u codi’n flaenorol, y dylem eu hystyried wrth ystyried canlyniadau’r adolygiad o gostau ychwanegol astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a’r goblygiadau ar gyfer cyllid?**

**Sylwadau:**

- Awgrymodd un ymateb y gallai’r model arfaethedig fel ag y mae gael effaith andwyol sylweddol ar feysydd sydd â darpariaeth cyfrwng Cymraeg gymharol fywiog (seicoleg, gwyddor chwaraeon, gwyddorau naturiol) ac felly y byddai effaith unrhyw gyllid ychwanegol a fyddai ar gael trwy, er enghraifft, premiwm cyfrwng Cymraeg, yn debygol o fod yn fach iawn yn y cyd-destun ehangach hwn.
- Roedd un ymateb yn awgrymu y gallai fod risg i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn meysydd all ddod yn rhai nas cyllidir yn y dyfodol.
- Ni wnaeth gweddill yr ymatebion nodi unrhyw faterion pellach a oedd yn ymwneud â chyllid ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Roedd ymatebion hefyd yn dweud y byddai sefydliadau'n disgwyl am ganlyniadau’r adolygiad gan London Economics o gostau ychwanegol astudiaeth cyfrwng Cymraeg cyn gwneud sylwadau pellach.

**Cwestiwn 7: A fydd ein cynigion yn cael unrhyw effaith (boed gadarnhaol neu niweidiol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac/neu o ran peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg? Os felly, sut y gellid diwygio'r cynigion er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol (neu fwy o effeithiau cadarnhaol) ar yr agweddau hynny?**

**Sylwadau:**

- Roedd un ymateb yn awgrymu y gallai fod risg i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn meysydd all ddod yn rhai nas cyllidir yn y dyfodol.
- Roedd gweddill yr ymatebion ar y cyfan yn nodi effaith niwtral (heb fod yn gadarnhaol nac yn negyddol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a/neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Roedd ymatebion hefyd yn dweud y byddai sefydliadau'n disgwyl am ganlyniadau'r adolygiad gan London Economics o gostau ychwanegol astudiaeth cyfrwng Cymraeg cyn gwneud sylwadau pellach.

**Cwestiwn 8: A yw'r cynigion yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'n creu canlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a saith nod llesiant, Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru?**

**Sylwadau:**

- Awgrymodd un ymateb y byddai methodoleg a allai adael sefydliadau mewn sefyllfa ariannol dlotach yn cael effaith negyddol ar eu gallu i fuddsoddi mewn ffyrdd arloesol o ymateb i'r meysydd hyn.
- Dywedodd un ymateb y byddai cyflawni sefyllfa lle byddai'r anghyfartalwch canfyddedig o ran costau rhwng darpariaeth AU israddedig ac amser llawn yn fwy teg yn helpu i gyrraedd nodau Llywodraeth Cymru fel a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau, a'r Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi. Roedd yr ymateb yn dadlau bod AU ran-amser yn hanfodol i alluogi economi llesiant, a chenhadaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'i bod yn galluogi pobl i ymestyn eu hunain a chyrraedd eu potensial. Byddai model cyllido cynaliadwy yn galluogi darparwyr i gynllunio a dylunio darpariaeth mewn ffordd fwy hirdymor, gynaliadwy, a chydweithredol.
- Awgrymodd un ymateb y byddai gweithredu'r cynigion (gan ystyried y baich ychwanegol y byddai hyn yn ei ddarparu yn ystod y cyfnod pontio, yn enwedig gyda'r amserlenni presennol) yn anodd ac y gallai ychwanegu at lwyth gwaith sydd eisoes yn drwm, a darparu effaith negyddol ar lesiant staff.
- Ni wnaeth y chwe ymateb sy'n weddill nodi unrhyw effeithiau o ganlyniad i'r cynigion, er bod dau ymateb yn nodi y byddai angen cynnal asesiad effaith pellach unwaith y byddai'r model terfynol wedi'i ddewis.

**Crynodeb o gynigion a ystyriwyd a'r canlyniad/penderfyniad cyfatebol**

| Cynnig | Penderfyniad |
|---|---|
| Diweddaru'r premiwm mynediad a chadw i ddefnyddio data cyfrifiad 2011 | Wedi'i roi ar waith yn 2022/23 |
| Diweddaru'r premiwm mynediad a chadw i ddefnyddio data MALIC 2019, gan ddisodli data Cymunedau yn Gyntaf | Wedi'i roi ar waith yn 2022/23 |
| Ehangu cymhwystra ar gyfer y cynllun hepgor ffioedd rhan-amser i gynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU, caniatáu astudiaeth AU flaenorol ar yr un lefel, cadarnhau cynnwys micro-gymwysterau | Wedi'i roi ar waith yn 2022/23 |
| Dyrannu arian y cynllun hepgor ffioedd rhan-amser rhag blaen, gan ddileu'r angen i sefydliadau amcangyfrif eu gofynion, unrhyw addasiadau'n cael eu gwneud gan CCAUC ar sail data HESA | Wedi'i roi ar waith yn 2022/23 |
| Diweddaru pwysiadau cadw ar gyfer y premiwm mynediad a chadw i ffafrio cadw | Wedi'i ystyried yn faith. Wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen oherwydd canlyniadau anfwriadol posibl (gweler y prif gylchlythyr). |
| Diweddaru'r trothwy yn y premiwm mynediad a chadw i sefydliadau gael eu hystyried yn ddarparwr ehangu mynediad, i 35% o fyfyrwyr israddedig rhan-amser sy'n hanu o Gymru yn dod o ardaloedd sydd yng nghwintelau 1 a 2 yn MALIC19 | Wedi'i roi ar waith yn 2022/23 |
| Ehangu'r premiwm mynediad a chadw i gynnwys myfyrwyr israddedig amser llawn | Wedi'i ystyried yn faith. Wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen oherwydd cyfyngiadau cyllidebol. |
| Defnyddio'r un ymarferion mapio daearyddol ar gyfer y premiwm mynediad a chadw yn 2023/24 ag yn 2022/23 | Wedi'i gadarnhau yng nghylchlythyr canlyniadau cam dau |
| Cadw'r gwahaniaethau perthynol rhwng y tair cyfradd gyllido ar gyfer y grwpiau daearyddol yn y premiwm Mynediad a Chadw | Wedi'i gytuno a'i gadarnhau yng nghylchlythyr canlyniadau cam dau |

| Cynnig | Penderfyniad |
|---|---|
| Parhau i ddyrannu cyllid y pen | Wedi'i gytuno a'i gadarnhau yng nghylchlythyr canlyniadau cam dau |
| Dyrannu cyllid y pen ar wahanol gyfraddau ar gyfer gwahanol ddulliau a lefelau astudio | Wedi cadarnhau y byddem yn parhau i gynnig un gyfradd sefydlog mewn perthynas â'r holl fyfyrwyr cymwys |
| Cynyddu gwerth y premiwm anabledd o £300 y myfyriwr | Wedi cadarnhau ein safbwynt mewn egwyddor yng nghylchlythyr canlyniadau cam dau yn amodol ar y gyllideb yn y dyfodol. Cynnig yn cael ei ystyried i gynyddu'r gyllideb ar y cyfan ar gyfer y premiwm anabledd. Rhagor o wybodaeth i ddilyn yn y cyfathrebiad ynghylch tybiaethau cyllido. |
| Premiwm cyfrwng Cymraeg | Adolygiad o gostau ychwanegol astudio wedi'i gomisiynu a'i gwblhau. Disgwylir cyhoeddi'r adroddiad a'r canlyniadau yn fis Ebrill 2023. |
| Dylunio dull cyllid addysgu seiliedig-ar-gredydau newydd a'i roi ar waith | Model wedi'i ddylunio ac ymgyngoriadau wedi cael eu cynnal. Penderfyniad i beidio â'i roi ar waith ar y cam hwn ond i'w ddarparu i'r CADY i'w ystyried – gweler y prif gylchlythyr am ragor o wybodaeth. |
| Dylunio grwpiau costau newydd i ddisodli categorïau pynciau academaidd a'u rhoi ar waith | Grwpiau costau newydd wedi'u dylunio, wedi'u diwygio mewn perthynas ag adborth sefydliadol ac wedi'u cadarnhau. Penderfyniad i beidio â'i roi ar waith ar y cam hwn ond i'w ddarparu i'r CADY i'w ystyried. |
| Defnyddio credydau recriwtio blwyddyn allan ryngosod a blwyddyn iaith dramor yn y model seiliedig-ar-gredydau yn ôl yr un gyfran â chyfran y ffi dysgu israddedig amser llawn a godir yn unol â'r rheoliadau | Wedi'i gytuno a'i gadarnhau fel rhan o'r model terfynol ond penderfyniad i beidio â rhoi'r model ar waith ar y cam hwn. |
| Defnyddio cyfnod o 12 mis o ddata recriwtio yn y model newydd unwaith y bydd data yn ystod y flwyddyn ar gael o gofnod myfyrwyr HESA | Wedi'i gytuno a'i gadarnhau fel rhan o'r model terfynol ond penderfyniad i beidio â rhoi'r model ar waith ar y cam hwn |
| Ymgorffori'r Premiwm Pynciau Drud a'r Premiwm Pynciau Cost Uwch yn y dull cyllid addysgu seiliedig-ar-gredydau newydd | Wedi'i gytuno a'i gadarnhau fel rhan o'r model terfynol ond penderfyniad i beidio â rhoi'r model ar waith ar y cam hwn |

| Cynnig | Penderfyniad |
|---|---|
| | |
| Defnyddio data Monitro Diwedd Blwyddyn yn lle HESES mewn prosesu dyrannu cyllid yn y dyfodol | Wedi'i gytuno a'i gadarnhau yng nghylchlythyr canlyniadau cam dau a chylchlythyr HESES. Bydd yn cael ei roi ar waith ar gyfer 2023/24. |